

Crynodeb gweminar dysgu a chinio dileu elw – 8 Medi 2026

1. Cyflwyniad a throsolwg

Agorodd Sarah Day, Arweinydd Uned Fusnes ADSS Cymru, y pumed gweminar dysgu a chinio dileu elw ar gyfer timau gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Canolbwyntiodd y sesiwn ar ofal preswyl: cymorth i ddarparwyr sy'n newid i fodolau nid-er-elw, y darlun sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru, a dull Conwy o recriwtio a datblygu ei weithlu.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys:

- Branwen Ellis – Cwmpas
- Gwilym Morris – ADSS Cymru
- Sharon Garland ac Emma Thomas – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Faye Newman – gweithiwr gofal plant preswyl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Pwysleisiodd Sarah bwysigrwydd rhannu dysgu a chadw canlyniadau plant yn ganolog. Roedd cyfieithu byw o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael.

2. Cymorth ac ymgysylltu wrth drosglwyddo darparwyr (Branwen Ellis)

Cymorth Cwmpas

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cwmpas i helpu darparwyr gofal preswyl preifat ac asiantaethau maethu i archwilio ailsefydlu fel sefydliadau nid-er-elw
- Mae'r gwasanaeth yn darparu sgysiau proffesiynol, diduedd a chyfrinachol i helpu perchnogion busnesau i ddeall eu dewisiadau

Darlun y sector

- Roedd tua hanner y darparwyr wedi cysylltu â Cwmpas
- Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn deall pwrpas y Ddeddf, ond roedd llawer yn bryderus am y newidiadau.
- Roedd rhai wedi dechrau cynllunio, ac roedd eraill yn bwriadu aros tan yn agosach at y dyddiad cau yn 2030.

Y cymorth ymarferol sydd ar gael

- Cyngor ar sefydlu sefydliad nid-er-elw a'r broses o werthu busnes
- Cynllunio ar gyfer staffio, contractau, safleoedd a llywodraethu
- Cymorth wedi'i deilwra i faint, natur ac amgylchiadau pob busnes
- Gweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, y 4C, partneriaid sector eraill a darparwyr cyllid i helpu darparwyr i gynllunio'n hyderus
- Mae dysgu o sgysiau unigol yn creu darlun cliriach o heriau a chyfleoedd ar draws y sector

Neges allweddol

- Dechrau trafodaethau'n gynnar ac annog darparwyr i geisio cymorth: gall sgwrs gyfrinachol gychwynnol eu helpu i ddeall y camau sy'n gysylltiedig

Cysylltiadau

- branwen.ellis@cwmpas.coop
- rhys.williams@cwmpas.coop
- www.cwmpas.coop

3. Y darlun gofal preswyl sy'n newid ledled Cymru (Gwilym Morris)

Diben ac egwyddorion

- Ailadroddodd Gwilym fod y symudiad o ddarpariaeth er elw wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth Cymru
- Rhaid i anghenion, diogelwch a chanlyniadau plant aros yn ganolog, gyda gofal diogel a sefydlog yn agos at eu cymunedau lle bynnag y bo'n briodol
- Rhaid i ddarpariaeth newydd fod yn gynaliadwy yn ariannol a chael digon o staff, gan ystyried lleoliad ac argaeledd gweithlu

Newidiadau yn y ddarpariaeth

- Bydd rhai darparwyr presennol yn newid i fodolau nid-er-elw; disgwylir i eraill adael y farchnad
- Mae darparwyr nid-er-elw newydd yn dangos diddordeb mewn gweithredu yng Nghymru
- Bydd awdurdodau lleol yn berchen ar fwy o ddarpariaeth breswyl a'i gweithredu, gan newid perthnasoedd a ffyrdd o weithio ar draws gwasanaethau
- Bydd partneriaethau â'r trydydd sector yn dod yn fwyfwy pwysig

Blaenoriaethau ar gyfer datblygu

- Mwy o ddarpariaeth leol i leihau lleoliadau y gellir eu hosgoi ymhell o gartref
- Gofal i blant ag anghenion uwch a mwy cymhleth, wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid ieuchyd, addysg a phartneriaid eraill
- Cymorth argyfwng, darpariaeth pontio a cham-i-lawr, gan gynnwys cymorth i ddychwelyd i amgylcheddau teuluol
- Seibiannau byr a chymorth arbenigol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer anabledd, awtistiaeth ac anghenion meddygol cymhleth

Adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio

- Defnyddio partneriaethau rhanbarthol presennol, tystiolaeth a modelau gofal effeithiol
- Cadw staff profiadol drwy greu cyfleoedd i symud i ddarpariaeth awdurdod lleol neu nid-er-elw
- Cynllunio gwasanaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda mwy o gydweithio ar gyfer yr anghenion mwyaf cymhleth

Neges allweddol

- Y cyfle yw datblygu gofal sy'n diwallu anghenion plant yn well, gyda gwasanaethau cynaliadwy a chyfranogiad gweithredol gan staff a phartneriaid ledled Cymru

4. Enghraifft o arfer lleol – llwybr gyrfa preswyl Conwy (Sharon Garland ac Emma Thomas)

Cyd-destun a heriau

- Roedd angen gweithlu mwy ar leoliadau preswyl newydd, gan gynnwys gwasanaeth sy'n cefnogi tri pherson ifanc ag anableddau dysgu cymhleth
- Roedd cystadleuaeth am staff profiadol a chymwys yn peri risg o ddibynnu ar weithwyr asiantaeth ac oedi wrth ddarparu gofal
- Roedd Conwy wedi datblygu dull recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd, gan agor cyfleoedd i bobl sydd ag empathi, ymrwymiad a pharodrwydd i ddysgu

Y llwybr gyrfa

- Llwybr gweladwy o weithiwr lefel 1 trwy lefelau 2 a 3 i rolau dirprwy a rheolwr cofrestredig
- Mae Lefel 1 yn cynnwys cyfnod sefydlu mis o hyd a lleoliad chwe mis, gyda dau ddiwrnod coleg wedi'u diogelu bob wythnos tuag at gymhwyster Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2
- Dysgu ymarferol ochr yn ochr â staff profiadol, gyda mentora a chyfrifoldebau'n cynyddu wrth i gymhwysedd a hyder ddatblygu
- Symudiad ymlaen i rôl lefel 2 a chyflog uwch yn dilyn cwblhau'n llwyddiannus, gyda chymorth tuag at y cymhwyster ymarfer plant a phobl ifanc Lefel 3
- Datblygiad pellach ar gyfer gweithwyr lefel 3, gan gynnwys arweinyddiaeth shifftiau, mentora a chynnydd posibl mewn rheolaeth

Cymorth a chyflenwi

- Recriwtiwyd dwy garfan, gyda dysgu ar y cyd a chymorth gan gymheiriaid
- Defnyddiodd yr ail garfan recriwtio mwy wedi'i dargedu ar gyfer y lleoliad anabledd dysgu cymhleth
- Mae mentor ymroddedig yn darparu cyswllt rheolaidd, cefnogaeth fugeiliol ac adolygiadau cynnydd
- Mae amser dysgu wedi'i ddiogelu, cymorth lleoli, cefnogaeth fusnes a chyllid grant yn hanfodol; mae gweithwyr lefel 1 yn ychwanegu at y sefydliad staffio

Cynnydd wedi'i adrodd

- 144 o benodiadau i rolau dros oddeutu dwy flynedd a hanner, gan gynnwys dilyniant mewnol a gyfrifir fel prosesau recriwtio ar wahân
- Adrodd am 86 o staff fel rhai sy'n dal yn eu swyddi
- Aeth saith o weithwyr ymlaen o lefel 1 i lefel 2, gyda phump neu chwech arall o bosibl yn symud ymlaen ym mis Tachwedd
- Aeth dau weithiwr ymlaen i lefel 3 a symudodd tri gweithiwr lefel 3 i rolau dirprwy reolwr

Gwersi a ddysgwyd

- Alinio recriwtio, sefydlu a lleoliadau â dyddiadau agor realistig ar gyfer lleoliadau newydd
- Sicrhau darpariaeth gyson yn y coleg a dealltwriaeth glir o'r hyn y gall gweithwyr lefel 1 ei wneud
- Caniatáu amser penodol ar gyfer mentora, gwiriadau recriwtio, cydlynu ac olrhain cynnydd
- Cydlynu tystiolaeth o gymwysterau, llofnodi cymhwysedd, swyddi sydd ar gael a chontractau i osgoi oedi wrth symud ymlaen

Neges allweddol

- Mae buddsoddiad mewn staff, cymorth strwythuredig a dilyniant clir yn helpu Conwy i adeiladu gweithlu preswyl mwy sefydlog a medrus

Cyswllt

- sharon.garland@conwy.gov.uk

5. Profiad gweithiwr o'r llwybr (Faye Newman)

Mynd i ofal preswyl

- Roedd Faye wedi gweithio ym maes cymorth busnes o fewn gofal cymdeithasol Conwy yn flaenorol ac roedd hi eisiau rôl a fyddai'n gwneud gwahaniaeth uniongyrchol i blant
- Roedd diffyg cymwysterau a phrofiad perthnasol wedi creu rhwystrau i fynd i ofal preswyl
- Roedd y llwybr yn cynnig profiad ymarferol, cymhwyster cydnabyddedig a chymorth drwy newid gyrfa sylweddol

Beth wnaeth y gwahaniaeth

- Helpodd mis o hyfforddiant cychwynnol i feithrin dealltwriaeth a magu hyder cyn lleoli
- Helpodd cyfuno gwaith ymarferol â dysgu yn y coleg i gysylltu gwybodaeth â phrofiad
- Roedd dysgu ochr yn ochr â charfan yn rhoi sicrwydd a chyfleoedd i rannu pryderon a llwyddiannau
- Helpodd mentora rheolaidd Faye i gydnabod ei chynnydd a thrafod ei phryderon yn agored

Cynnydd

- Cwblhaodd Faye y llwybr lefel 1, enillodd ei chymhwyster lefel 2 ac roedd wedi bod yn gweithio mewn rôl lefel 2 ers bron i flwyddyn
- Roedd hi wedi dechrau astudio tuag at ei chymhwyster lefel 3

6. Uchafbwyntiau'r Sesiwn Holi ac Ateb

Pam y gallai darparwyr ohirio'r cyfnod pontio

- Disgrifiodd Branwen bryderon ynghylch cymhlethdod, cost camgymeriadau a bod y cyntaf i drawsnewid
- Roedd rhai darparwyr yn dal i obeithio na fyddai'r newid yn digwydd neu y gallai eithriadau fod yn berthnasol
- Ei neges oedd dechrau cynllunio a cheisio cymorth yn hytrach nag oedi

Capasiti ac ansicrwydd yn y dyfodol

- Disgrifiodd Gwilym senarios cynllunio yn amrywio o ddim darparwyr yn trosglwyddo i tua hanner yn trosglwyddo; rhagdybiaethau gweithredol oedd y rhain, nid canlyniadau wedi'u cadarnhau
- Mae awdurdodau lleol a'r 4C yn monitro'r sefyllfa ac yn annog darparwyr o ansawdd da i ymgysylltu â chymorth pontio

- Mae gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau ymhlith cydweithwyr yn Lloegr

Denu staff i ofal cymdeithasol

- Nid oedd Conwy wedi nodi cystadleuaeth benodol o'r sector iechyd ac roedd wedi denu ymgeiswyr o gefndiroedd iechyd, addysg a chefnidiroedd eraill
- Roedd y staff yn gwerthfawrogi'r llwybr gyrfa clir, y cymorth a'r buddsoddiad yn eu datblygiad
- Roedd argymhellion llafar yn helpu recriwtio

7. Diwedd

Adborth y cyfranogwyr

- Nododd Sarah symudiad tuag at ymatebion mwy cadarnhaol, gan gydnabod ansicrwydd a phryder parhaus
- Ystyriwyd bod gweminarau a chyfathrebiadau presennol yn ddefnyddiol, gyda rhai o'r mynychwyr eisiau mwy o wybodaeth a diddordeb mewn gweithdai rhyngweithiol ar-lein
- Bydd adborth yn helpu i lunio cynnwys a chyfathrebu yn y dyfodol

Themâu allweddol

- Cadw plant a phobl ifanc wrth wraidd y newidiadau
- Darparu'r cymorth cywir ar yr amser cywir i ddarparwyr a staff
- Ymunon lleol, codi cwestiynau gyda rheolwyr a phenaethiaid gwasanaeth, a rhannu syniadau gydag ADSS Cymru

Cyfle

- Mae grŵp cyfeirio cyfathrebu ADSS Cymru yn chwilio am aelodau newydd o dimau gofal cymdeithasol ledled Cymru
- Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac yn helpu i nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn cyfathrebu

Gweminar nesaf

- Dydd Mawrth 12 Ionawr 2027
- Ffocws: gwybodaeth ymarferol i helpu staff i rannu diweddariadau ac ateb cwestiynau gyda'u timau, ochr yn ochr â chynllunio'r gweithlu